Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Prentisiaethau yn Gyrru Cerbyd Nwyddau

Rhif y Fframwaith: FR04218 **Rhifyn:** 11 **Dyddiad:** 29/01/2018

Cytunwyd ar gynnwys y fframwaith hwn gan Institute of the Motor Industry ac maent wedi'i gyhoeddi.

TROSOLWG:

Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno darpariaeth hyfforddiant Lefelau 2 a 3 o fewn y galwedigaethau Cludiant a Logisteg. Os cwblheir y ddarpariaeth, caiff cymhwyster wedi'i ddynodi/reoleiddio ei ddyfarnu.

Mae'r Lefel 2 Brentisiaeth hon yn ceisio darparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer amryw o rolau yn cynnwys gyrwyr faniau, cerbydau un cymal a lorïau cymalog, neu fel cludwyr beiciau/beiciau modur.

Mae'r Lefel 3 Brentisiaeth hon yn ceisio darparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer amryw o rolau yn cynnwys Arweinwyr Tîm ar gyfer gyrwyr faniau, cerbydau un cymal a lorïau cymalog a Chludo Nwyddau ar y Ffordd.

DEILLIANNAU GORFODOL

Bydd y corff dyfarnu priodol yn gwirio sut yr asesir cyflawni'r cymwysterau hyn. Rhaid i unigolion gwblhau:

- Naill ai gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster sy'n cyfuno'r ddwy elfen o un o'r llwybrau canlynol
- Sgiliau Hanfodol a'r Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth a nodir isod

Llwybrau ar gyfer y fframwaith hwn ar lefel 2:
Llwybr 1: Cludwyr Beiciau/Beiciau Modur, Llwybr 2: Gyrrwr Fan, Llwybr 3: Gyrrwr Cerbyd Un Cymal, Llwybr 4: Gyrrwr Lorïau Cymalog/Bar Tynnu.

Llwybrau ar gyfer y fframwaith hwn ar lefel 3:
Llwybr 1: Gyrrwr Fan, Llwybr 2: Gyrrwr Cerbyd Un Cymal, Llwybr 3: Gyrrwr Lorïau Cymalog/Bar Tynnu, Llwybr 4: Cludo Nwyddau ar y Ffordd (Fan), Llwybr 5: Cludo Nwyddau ar y Ffordd (Un Cymal), Llwybr 6: Cludo Nwyddau ar y Ffordd (Lorïau Cymalog/Bar Tynnu).

Sgiliau Hanfodol Cymru:
Lefel 2 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 1, Lefel Gyfathrebu 1, Lefel TGCh Amherthnasol

Lefel 3 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 2, Lefel Gyfathrebu 2, Lefel TGCh Amherthnasol

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a'r broses sefydlu sylfaenol sy'n ymwneud â Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn y gweithle yn ddewisol.

RHAGOR O WYBODAETH

I weld cynnwys y Fframwaith hwn a'r fanyleb lawn, cysylltwch: Institute of the Motor Industry.